




Cymun Bendigaid ar Gân
Sul yr Adfent
3 Rhagfyr 2023 am 9.15am



**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Y DOLIG HWN YNG NGHADEIRLAN DEINIOL SANT YM MANGOR

Nos Fercher 20 Rhagfyr 2023
Nos Sadwrn 23 Rhagfyr 2023
am 6.00pm

Naw Llith a Charol y Nadolig

Ar drothwy'r Nadolig, ymunwch â ni wrth i ni deithio i Fethlehem, gyda darlleniadau traddodiadol a charolau yng ngolau cannyll yn adrodd hanes genedigaeth Crist.

Bydd y gwasanaeth dwyieithog hwn yn para ychydig llai nag awr.

Yn sgil poblogrwydd y ddefod y llynedd, rydym yn cynnig ein Naw Llith a Charol y Nadolig ddwywaith eleni, ar 20 a 23 Rhagfyr.

24 Rhagfyr 2023 am 11.00pm

Cymun Canol Nos y Nadolig

Ymunwch â ni ar gyfer ein dathliad cyntaf o'r Nadolig yng ngolau cannyll yn hwyr ar Noswyl Nadolig, a chôr y Gadeirlan yn arwain y carolau a'r canu.

Bydd y gwasanaeth dwyieithog hwn yn para tuag awr.

25 Rhagfyr 2023 am 11.00am

Cymun Bendigaidd Bore Nadolig

Ymunwch â ni ar gyfer ein Cymun llawen ar fore Nadolig, dan arweinyddiaeth Archesgob Cymru, ac wedi ei ddilyn gan dderbyniad gwinn i ddathlu.

Bydd y gwasanaeth dwyieithog hwn yn para tuag awr.

Mae mynediad i'r holl ddefodau hyn yn rhad ac am ddim, ac mae croeso cynnes i bawb. I fod yn siwr o'ch sedd, archebwch eich sedd am ddim arlein, neu rhowch eich enw i'r Stiwardiaid ar 3/10/17 Rhagfyr.

**CADWCH
SEDD
RESERVE
YOUR SEAT**



Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Plant a theluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â themâu'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.


Buchedd Bangor



O'r Ddarllenfa From the Lectern



Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Emyn



O tyred di, Emanwêl,
a datod rwymau Isrâel
sydd yma'n alltud unig, trist
hyd ddydd datguddiad Iesu Grist:
O cân, O cân: Emanwêl
ddaw atat ti, O Isrâel.

O tyrd, Flaguryn Jesse, nawr
a dryllia allu'r gelyn mawr;
tho fuddugoliaeth drwy dy wedd
ar uffern ddofn ac ofn y bedd:
O cân, O cân: Emanwêl
daw atat ti, O Isrâel.

O tyred, olau'r Seren Ddydd,
diddana in calonnau prudd;
gwasgara du gymylau braw
a chysgod angau gilia draw:
O cân, O cân: Emanwêl
ddaw atat ti, O Isrâel.

O tyrd, Fab Dafydd, agor di
yn llydain byrth y nef i ni;
palmanta'r ffordd sy'n arwain fry
a chau holl lwybrau pechod hy:
O cân, O cân: Emanwêl
ddaw atat ti, O Isrâel.

O tyred, Arglwydd, yn dy nerth,
tydi yr hwn ar Sinai serth
gyhoeddaist gynt dy ddeddfau glân
mewn mawredd a chymylau tân:
O cân, O cân: Emanwêl
daw atat ti, O Isrâel.

Geiriau

Yn seiliedig ar Antiffonau yr Adfent Lladin

Cyfieithiad

John Daniel Vernon Lewis (1879-1970)

Cerddoriaeth | "Veni Immanuel"

Alaw Ffrengig

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

"Bydd Duw yn barnu'r byd â chyfiawnder, a'r bobloedd â gwirionedd."

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ger bron disgleirdeb Duw

sy'n llewyrch yn ein tywyllwch,

sy'n hidlo lludw'n dyheu,

sy'n ailgynnau ynom gyfiawnder a chariad.

Dad nefol,

**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.**

Mae'n wir ddrwg gennym,

ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.

Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,

maddeua inni'r cwbl a aeth heibio

ac arwain ni yn ei ffordd ef

i gerdded fel plant y goleuni.

Amen.

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthyich,

✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

Parhawn ar ein traed

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

Cyfieithiad

*Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd
trugarha.*

Cerddoriaeth

Missa brevis, Giovanni Pierluigi da Palestrina (1525-1594)

Parhawn ar ein traed

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

Hollgyfoethog Dduw, dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, ac i wisgo arfau'r goleuni, yn awr yn y bywyd marwol hwn, a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist pan ymwelodd â ni mewn gostyngedd mawr; fel y bo i ni yn y dydd diwethaf, pan ddaw drachefn yn ei ogoneddus fawredd i farnu'r byw a'r meirw, gyfodi i'r bywyd anfarwol; trwy'r Un Iesu Grist ein Gwardwr.

Amen.

Eisteddwn

Gair

Salmyddiaeth



∇ Mewn ardderchogrwydd purdeb gwiw,
yn sanctaidd oll addolwch Dduw.

R Mewn ardderchogrwydd purdeb gwiw,
yn sanctaidd oll addolwch Dduw.

Ymgrymchwch i'r Sanctaidd Un yn ysblander sancteiddrwydd;
crynwch o flaen Duw, yr holl ddaear.

Dywedwch ymhlith y cenedloedd, "Duw sy'n teynasu"; yn wir,
y mae'r byd yn sicr ac nis symudir; bydd Duw'n barnu'r bobloedd
yn uniawn.

R Mewn ardderchogrwydd purdeb gwiw,
yn sanctaidd oll addolwch Dduw.

Bydded y nefoedd yn llawen a gorfoledded y ddaear; rhued y
môr a'r cyfan sydd ynddo; llawenyched y maes a phopeth sydd
ynddo.

Yna bydd holl brennau'r goedwig yn canu'n llawen o flaen Duw, oherwydd y mae'n dod, oherwydd y mae'n dod i farnu'r ddaear.

**R̄ Mewn ardderchogrwydd purdeb gwiw,
yn sanctaidd oll addolwch Dduw.**

Bydd yn barnu'r byd â chyfiawnder, a'r bobloedd â gwirionedd.

**R̄ Mewn ardderchogrwydd purdeb gwiw,
yn sanctaidd oll addolwch Dduw.**

Salm 96:9-13

Cerddoriaeth

Joe Cooper a Simon Ogdon; tón VIII, ail derfyniad

Darlleniad

Darlleniad o'r Lyfr y Proffwyd Eseia.

Dyma'r hyn a ddywed y Sanctaidd Un: Ewch i mewn, ewch i mewn drwy'r pyrth, paratowch ffordd i'r bobloedd; codwch briffordd a symudwch y cerrig, dyrchafwch arwydd i'r bobloedd. Clywch, cyhoeddodd y Sanctaidd Un i bellafoedd y ddaear: Dywedwch wrth ferch Seion, "Y mae dy achubydd yn dyfod; y mae ei wobr yn ei law, ac y mae ei dâl ganddo." Fe'u gelwir hwy yn "Bobl Sanctaidd, Gwaredigion Duw," ac fe'th elwir di, "Yr Un a Geisiwyd, Dinas Nas Gwrthodwyd."

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Eseia 62:10-12

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys



Y Haleliwia. R Haleliwia. Y Y mae dy achubydd yn dyfod; y mae ei wobr yn ei law. R Haleliwia. Y Hosanna i Fab Dafydd! Hosanna yn y goruchaf! R Haleliwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Mathew.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Pan ddaethant yn agos i Gaersalem a chyrraedd Bethffage a Mynydd yr Olewydd, anfonodd Iesu ddau ddisgybl gan ddweud wrthynt, "Ewch i'r pentref sydd gyferbyn â chwi, ac yn syth fe gewch asen wedi ei rhwymo, ac ebol gyda hi. Gollyngwch hwy a dewch â hwy ataf. Ac os dywed rhywun rywbeth wrthyich, dywedwch, 'Y mae ar y Meistr eu hangen'; a bydd yn eu rhoi ar unwaith." Digwyddodd hyn fel y cyflawnid y gair a lefarwyd trwy'r proffwyd: "Dywedwch wrth Seion, Wele dy frenin yn dod atat, yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ac ar ebol, llwdn anifail gwaith." Aeth y disgyblion a gwneud fel y gorchmynnodd Iesu iddynt; daethant â'r asen a'r ebol ato, a rhoesant eu mentyll ar eu cefn, ac eisteddodd Iesu arnynt. Taenodd tyrfa fawr iawn eu mentyll ar y ffordd, ac yr oedd eraill yn torri canghennau o'r coed ac yn eu taenu ar y ffordd. Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a'r rhai o'r tu ôl yn gweiddi: "Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Sanctaidd Un. Hosanna yn y goruchaf!" Pan ddaeth ef i mewn i Jerwsalem cynhyrfwyd y ddinas drwyddi. Yr oedd pobl yn gofyn, "Pwy yw hwn?", a'r tyrfaoedd yn ateb, "Y proffwyd Iesu yw hwn, o Nasareth yng Ngaliilea." Aeth Iesu i mewn i'r deml, a bwriodd allan bawb oedd yn prynu ac yn gwerthu yn y deml; taflodd i lawr fyrdau'r cyfnewidwyr arian a chadeiriau'r rhai oedd yn gwerthu colomennod, a dywedodd wrthynt, "Y mae'n ysgrifenedig: 'Gelwir fy nhŷ i yn dŷ gweddi, ond yr ydych chiwi yn ei wneud yn ogof lladron.'"

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.

Moliant i ti, O Grist.

Mathew 21:1-13

Pregeth yn y gyfres “Canys fy llygaid a welsant” Niclás o Fyra

Llewyrchu wna'r saint. Roedd eu buchedd yn olau'n eu dydd; yn eu hesiamp gwelwn gyfiawnder a sancteiddrwydd yn gliriach; mae eu presenoldeb yn awr, ym mynwes Dduw, yn goleuo i ni ffyrdd tragwyddoldeb. Wrth wraidd eu hysbrydoliaeth ddadlennol y mae iddynt weld fel ninnau, trwy lygaid meidrol; ac o bliith bywydau tebyg iawn i'n bywydau ni y bu i'r rhain gael cip ar Oleuni Crist. Yr Adfent a'r Nadolig hwn, deuir â'r seintiau a ddatlwn yn ystod yr wythnos yn y Gadeirlan ac Eglwys y Groes i mewn yn rhan o'n haddoliad ar y Sul. Fe'n gwahoddir yn y gyfres bregethu hon i weld yr Adfent a'r Nadolig trwy eu llygaid hwn, er mwyn i ni, fel y gwnaethant hwythau, weld y Crist ymgnawdoledig yn ein mysg.

Yr Is-Ddeon

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Dduw Sanctaidd, gweddiwn dros yr Eglwys, a grëwyd er dy ogoniant. Gweddiwn dros Andrew ein Hesgob; dros weinidogaeth feunyddiol Eglwys y Groes a'n Cadeirlan; a thros bawb a ddaw'n bererinion dros y trothwy'r wythnos yma. Estyn i ni oll dy iachawdwriaeth a'th dwf.

✚ O Dduw, yn dy drugaredd,

✚ **Gwrando ein gweddi.**

Dduw Sanctaidd, gweddiwn dros y byd, a grëwyd gan dy gariad. Gweddiwn yn arbennig dros bobl Wcráin yn amddiffyn ac yn gwaredu eu cartref; a thros bobl Israel a Gasa yn eu braw a'u poen. Una ni, mewn calon a meddwl, â phawb sy'n dyheu am gyfiawnder a heddwch, hyd yn oed pan fo'r golau'n wan a'r clwy'n dirgrynu. Estyn i ni oll dy dangnefedd a'th gariad gweddnewidiol.

✚ O Dduw, yn dy drugaredd,

✚ **Gwrando ein gweddi.**

Dduw Sanctaidd, gweddiwn dros dy holl bobl, wedi'u creu ar dy ddelw, ac yn enwedig dros yr unig, y galarus, a'r claf. O'n cymuned ni, gweddiwn dros [...]. Anadla anadl einioes arnynt a dwg iddynt dy drugaredd a'th ras.

✚ O Dduw, yn dy drugaredd,

✚ **Gwrando ein gweddi.**

Dduw Sanctaidd, gweddiwn dros y rhai yr ydym yn eu caru ond na'u gwelwn mwyach. Gweddiwn dros y rhai sydd wedi marw yn ddiweddar, yn enwedig y rhai a fu farw'n ddisymwth a dibaratoad; ac o'n cymuned ni gweddiwn dros [...]; a thros [...] y cedwir eu gŵyl goffa'r dyddiau hyn.

✚ Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.

✚ **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**

✚ ✚ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

✚ **A chyfodi mewn gogoniant.**

Gan uno'n gweddi â gweddiâu Mair Mam Duw, Deiniol, Seiriol, Cadfan a holl Saint Enlli, cyd-weddiwn:

✚ Dad trugarog,

✚ **Derbyn y gweddiâu hyn**

er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.

Amen.

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn

Cymun

Eryn



Pa sain yw hon, rhy ddwyfol i'w hadnabod,
dreiddia drwy'r ddaear megis cryndod cudd?
Ai terfysg pell sy'n dweud bod lesu'n dyfod?
Ai nodau gweddi ar gynghanedd ffydd?

Ydyw, mae'n dyfod, llefa mil o leisiau
i lonni'r saint, er byddar yw y byd;
ydyw, mae'n dyfod, dathla'r ddaear hithau
wawrio'i addewid ar ôl disgwyl cyd.

Bu'n driw i'w Air, a gorau'n mawl mae'n haeddu,
Duw gyda ni, na feiddiwn lwfwrhau;
ymlawenhawn a brysiwn i'w groesawu:
dwg ein holl ofid er ein llwyg iacháu.

Trwy 'mywyd oll, boed wych neu wael fy nyddiau,
ef a'm cynhaliodd ar y ffordd bob dydd:
Crist ar ei diwedd, fel bu ar ei dechrau,
Crist yw y daith, a Christ ei hanterth fydd.

Geiriau

Frederic William Henry Myers (1843-1901)

Cyfieithiad

Siôn Aled

Cerddoriaeth | "Rhys"

William John Evans (1866-1947)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneddio.

Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A ddaeth i'n plith yng nghyflawniad yr amser gan agor inni ffordd iachawdwriaeth. Gwylw'n yn awr am y dydd pan ddaw drachefn i farnu'r byd, gan ddatguddio goleuni ei bresenoldeb, fel y gwelwn ei allu a'i ogoniant.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctus, sanctus, sanctus, Dominus Deus Sabaoth. Pleni sunt caeli et terra gloria tua. Hosanna in excelsis.

✠ Benedictus qui venit in Nomine Domini. Hosanna in excelsis.

Cyfieithiad

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, Nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf. ✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn Enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth

Missa brevis, Giovanni Pierluigi da Palestrina (1525-1594)

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bôn't i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwyteu'ch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Cyhoeddwn ddirgeledd y ffydd.

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Tangnefedd

Hyn yw trugaredd dy galon, O Grist –
daw'r wawrddydd oddi uchod i'n plith
i ddatguddio ein hundeb ynot ti;
dy gorff torredig yn gyflawn pan ymddangosi.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, miserere nobis.

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, miserere nobis.

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, dona nobis pacem.

Cyfieithiad

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

Cerddoriaeth

Missa brevis, Giovanni Pierluigi da Palestrina (1525-1594)

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafenol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

Motét

Hosanna i Fab Dafydd. Bendigedig yw'r hwn sydd yn dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf. Amen.

Geiriau

Mathew 21:9

Cerddoriaeth

Tomás Luis de Victoria (1548-1611)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn

Emyn



Wle'n dyfod ar gymylau
Farnwr dyn a Brenin nef;
myrdd myrddiynau sydd o'i seintiau
yn ei amgylchynu ef;
Haleliwia! Haleliwia! Haleliwia!
Iesu a deyrnasa byth.

Dacw'r Barnwr yn ei gerbyd,
utgyrn fyrdd yn canu o'i flaen;
cydymgasgl y meirw cysglyd
oll gerbron ei orsedd lân;
Haleliwia! Haleliwia! Haleliwia!
dyma ddydd gogoniant Crist.

Gorfoledda'r holl ffyddloniaid,
a'u llawenydd fydd yn llawn;
dyma'u Prynwr mawr bendigaid,
a'u Gwaredwr annwyl iawn;
Haleliwia! Haleliwia! Haleliwia!
byddant mwyach gydag ef.

Geiriau

Charles Wesley (1707-1788)

Efelychiad

Psalmau a Hymnau (1856); Benjamin Francis (1734-1799)

Cerddoriaeth | "Helmsley"

Martin Madan (1726-1790)

Parhawn ar ein traed



Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Llewyrched Crist, Haul cyfiawnder, arnoch a chwalu'r
tywyllwch o'ch blaen; a bendith Duw hollalluog,
y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo
gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.


Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

Offrymddarn ar yr organ

Nun komm, der Heiden Heiland, BWV 659, Johann Sebastian Bach (1685-1750)



Hysbys



Defod Hwyrol yr Adfent

Cynhelir ein Defod Hwyrol ar Sul yr Adfent yng ngolau kannwyll am 6.00pm heno. Bydd y Côr yn canu symudiadau agoriadol mawreddog *Gwylnos* Sergei Rachmaninoff, wrth i ni, mewn cerddoriaeth, carol, gair a gweddi, baratoi ar gyfer llewyrch datguddiadol ein "Duw gyda ni."

Lletygarwch y Gadeirlan a'r Gosber ar Gân yn ystod yr Adfent

Hyfryd yn ystod tymor yr Adfent yw croesawu cynifer o elusennau a sefydliadau i'r Gadeirlan yn ystod yr wythnos ac ar nosweithiau Sadwrn ar gyfer gwasanaethau carolau a chyngherddau Nadolig. Mae ein dyled yn fawr i gydweithwyr o dîm y Gadeirlan sy'n gweithio'n galed yr wythnosau hyn i symud dodrefn, i fod ar ddyletswydd yn hwyr yn y nos, ac i gynnig croeso cynnes i'n hymwelwyr.

Mae digwyddiadau o'r fath yn anochel yn cael effaith ar amserlen Gosber ar Gân yn ystod yr wythnos. Edrychwch ar y rhestrau am newidiadau wythnosol.

Cinio Dewch a Rhannu

Cynhelir ein Cinio Dewch a Rhannu nesaf am 12.15pm, yn dilyn y Choral Holy Eucharist, ar Drydydd Sul yr Adfent, 17 Rhagfyr.

Undeb y Mamau

Bydd y cyfarfod Undeb y Mamau nesaf yn Eglwys y Groes ar ddydd

Llun 4 Rhagfyr, am 2.30pm. Bydd darlleniadau a charolau Adfent, a lluniaeth i ddilyn.

Atseiniau iaith yr Adfent

Agwedd ddwys ar ysbrydolrwydd tymor yr Adfent yw hiraeth am ddyfodiad Crist fel Meseia. Cawn yn aml fod hiraeth hwn yn cael ei fynegi drwy ddelwau ac iaith yr Hen Destament. Rhennir yr hiraeth hwn a thestun yr Hen Destament gan yr Eglwys a'r bobl Iddewig; a chan fod yr Ysgrythurau ym mhob traddodiad ar unwaith yn hen ac yn fyw, y mae i iaith ysgrythurol bob amser atseiniau cyfoes.

Fel pobl yr Eglwys, yn adleisio iaith y Proffwyd Eseia, yr ydym wedi canu ers tro am ddyfodiad Crist yn datod rhwymau Isrâel; yr ydym wedi hen ddisgrifio'r ddinas nefol, ein cyfrchfan fythol y tu hwnt i amser, fel Jerusalem / Caersalem neu Seion. Ond gan nad yw'r iaith grefyddol honno'n perthyn i'r Eglwys yn unig, a chan ei bod yn iaith fyw heddiw, mae'n debyg y byddwn yr Adfent hwn yn clywed atseiniau gwrthdaro ac anghyfiawnderau presennol wrth i ni ganu a gweddiö yn ein ffyrdd traddodiadol ni.

Nid oes dianc rhag yr anghysur hwn. Ar adegau, ni allwn (ac ni ddylem) wneud mwy na pherchnogi yn dyner, yn barchus ac yn fyfyril ein traddodiad a chyseindedd hen iaith yr Eglwys, tra'n sylwi hefyd ar y tensiynau a achosir wrth i'r un iaith gael ei defnyddio a'i byw, yn deilwng ac yn annheilwng, gan eraill. Wedi'r cwbl, mae natur ymgawdoledig Crist yn golygu na chawn byth ddechreu dim â dalen wag, or newydd; mae yna bob amser hanes, ac nid yw ein ffydd, ein gobaith a'n cariad ni fyth yn bodoli ar eu pen eu hunain, ond wastad wedi'u cysylltu'n briodol ac yn ddwfn â holl ryfeddod a thrueni creadigaeth Duw.

Yr wythnos

Heddiw | Today

6.00pm Defod Hwyrol | Evening Liturgy

Gwynos | Vespers, Rachmaninoff

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Mawrth | Tuesday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mercher | Wednesday | Niclás o Fyra | Nicholas of Myra

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Iau | Thursday

12.30pm Cymun | Eucharist

2.00pm | Eglwys y Groes Cymun | Eucharist

Noswyl Fair y Gaeaf | Mary's Eve in Winter

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

8 Rhagfyr | Dydd Gwener | 8 Dygwyl Fair y Gaeaf 8 December | Friday | Mary's Day in Winter

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

10 Rhagfyr | Ail Sul yr Adfent December | The Second Sunday of Advent

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun ar Emyn-Donau Cymreig, Cooper; Grawdwr nef a daear lawr, Williams

11.00am Choral Holy Eucharist

Mass of the Quiet Hour, Oldroyd; Adam lay ybounden, Ord

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Smith; Gwasanaeth Hwyrol yn F | Evening Service in F, Wood; Rorate caeli, Rheinberger

Ein gweddi

Yn glâf Joy Levine, offeiriad; John Watkin Jones; Bill Lovelock; Barbara Watson; Alan Benn; Giuseppina de Giovanni; Domenico de Rosa; Angela Halliwell; Mark Kennedy; Margaret Tromans; Natalie Greenaway; Shirley Dymock

A fu farw'n diweddar Jeffrey Hughes, offeiriad; Megan Hughes Kennedy; Peter Way; Grace Way; April Degruchy; Gwenda Pritchard

Gŵyl goffa Jacqueline Parry (4); Eifion Evans (8)

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffyrddio arlein, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar sianel YouTube y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Darlun clawr

Ar y clawr ceir rhan o eicon Bysantaidd o Niclâs o Fyra yng nghasgliad Neuadd Campion, Prifysgol Rhydychen.

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswilt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.



Eglwys Gadeiriol ac Archesgobol

Deiniol Sant ym Mangor

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru
Bishop & Archbishop of Wales

Y Parchedicaif | The Most Revd Andrew John

Is-Ddeon | Sub-Dean

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Canon for Congregational Life

Canon Tracy Jones

tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Caplan Prifysgol a Chymuned

University & Community Chaplain

Y Parchg | The Revd Neville Naidoo

nevilnaidoo@eglwysyngnghymru.org.uk

Is-Ganon | Minor Canon

Y Parchg | The Revd Josie Godfrey

josiegodfrey@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music

Joe Cooper

joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist

Martin Brown

martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Litwrgi ac Ail-gantor

Liturgy Administrator & Succentor

Sam Jones

samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cydllynydd Gweinidogaeth Deulu

Family Ministry Coordinator

Yasmin de Rosa

yasminderosa@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos

Simon Taylor

simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer

Kelly Edwards

kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus

Canon David Thomas Morris

davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus

Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan

Members of the Cathedral's College of Priests

Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor- Jones,

y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof.

Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter

Kaye

Darllenydd | Reader

Elma Taylor

Caplaniaid Anna | Anna Chaplains

Jane Coutts, Anne Eyre, Elma Taylor

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect

Simon Malam

Rhif elusen | Charity number 1158340